

Number: WG29328



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

**Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i olynu
cynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru – Nest**

Rhagfyr 2016

Cynnwys

Adran 1 - Cyflwyniad

Adran 2 - Trosolwg o'r ymatebion

Adran 3 - Dadansoddiad o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Atodiad 1 - Rhestr o ymatebwyr

Atodiad 2 - Crynodeb o'r gweithdy i randdeiliaid

Atodiad 3 - Rhestr o gwestiynau

Adran 1- Cyflwyniad

1. Ar 27 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar gynllun tloedi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol. Bydd y cynllun hwn yn olynu cynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nest o fis Medi 2017 ymlaen. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Hydref 2016 a bydd y ddogfen ymgynghori ar gael yn:
<https://consultations.gov.wales/consultations/future-demand-led-fuel-poverty-scheme-succeed-welsh-government-warm-homes-nest>
2. Gofynnwyd cyfanswm o 9 cwestiwn, yn holi am farn rhanddeiliaid ar ystod o faterion yn ymwneud â dyluniad a chyflwyniad arfaethedig y cynllun newydd. Roedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar gynigion sy'n gysylltiedig â'r prif feysydd canlynol:
 - y cymorth a ddarperir gan y cynllun
 - y meini prawf cymhwysedd, yn cynnwys sut mae aelwydydd yn dangos eu bod yn gymwys
 - y terfyn gwario ar fesurau gwelliannau ynni yn y cartref fesul aelwyd
 - targedu aelwydydd cymwys.
3. Mae rhestr gyflawn o gwestiynau yn Atodiad 1.
4. Yn rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid ar 5 Hydref 2016, gan ddod ag ystod o randdeiliaid allweddol ynghyd o wahanol sectorau i drafod agweddau allweddol ar yr ymgynghoriad. Cafwyd presenoldeb da, gyda 29 o gynrychiolwyr o ystod o sectorau, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol/trydydd sector, cyflenwyr ynni, awdurdodau lleol a darparwyr cyngor. Mae crynodeb o'r digwyddiad yn Atodiad 2.
5. Mae Adran 2 o'r ddogfen hon yn ddadansoddiad cryno o'r holl ymatebion ac mae Adran 3 yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd. O ystyried yr amrywiaeth eang o sylwadau a wnaed, mae'n bwysig nodi nad yw'r ddogfen hon yn ceisio ymateb yn unigol i bob sylw a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, ond yn hytrach mae'n ymateb yn bennaf i faterion arwyddocaol a godwyd gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, rhoddwyd ystyriaeth i bob pwynt a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.
6. Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid am roi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac am ddarparu eu sylwadau a'u hawgrymiadau ar gyfer dylunio a chyflwyno cynllun tloedi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol yng Nghymru.
7. Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk

Adran 2 – Trosolwg o'r ymatebion

1. Daeth cyfanswm o **44** o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i law gan ystod o randdeiliaid. Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion yn ôl sector isod, ac mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad 3.

Ymatebion yn ôl math o ymatebwr

Math o ymatebwr	Nifer yr ymatebion	%
Unigolion (Aelodau'r cyhoedd)	1	2
Busnesau	17	39
Awdurdod Lleol	6	14
Asiantaeth Llywodraeth/sector cyhoeddus arall	3	7
Cyrff proffesiynol/grwpiau buddiant	4	9
Sector gwirfoddol	12	27
Arall	1	2
Cyfanswm:	44	100%

2. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o ystadegau'r ymatebion wedi'u rhannu'n categorïau: 'cytuno', 'anghytuno' ac 'arall'. Cofnodir ymatebion yn rhai 'arall' pan nad yw'r ymatebydd wedi nodi'n glir a yw'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig. Ni chyfrifwyd cwestiynau 7 – 9 gan eu bod yn gofyn cwestiynau mwy agored gyda nifer o atebion iddynt.

Dadansoddiad o'r ymatebion

		Cytuno		Anghytuno		Arall		Cyfanswm #
		No.	%	No.	%	No.	%	
Cwestiwn 1 (Cymorth y Cynllun)	A)	33	85	0	0	6	5	39
	B)	33	85	0	0	6	5	39
Cwestiwn 2 (Dull Cartref Cyfan)	-	34	92	1	3	2	5	37
Cwestiwn 3 (Terfynau Gwario)	A)	22	61	2	6	12	33	36
	B)	16	89	2	11	-	-	18
Cwestiwn 4 (Meini prawf Cymhwysedd)	-	8	24	20	61	5	15	33
Cwestiwn 5 (Sector Rhentu Preifat)	-	10	29	17	49	8	23	35
Cwestiwn 6 (Dangos Cymhwysedd)	A)	16	55	1	3	12	41	29
	B)	11	38	0	0	18	62	29
Cwestiwn 7 (System Atgyfeirio Trydydd Parti)	-	-	-	-	-	-	-	29
Cwestiwn 8 (Targeddu)	-	-	-	-	-	-	-	26
Cwestiwn 9 (Sylwadau eraill)	-	-	-	-	-	-	-	24

Noder: Efallai nad yw pob canran yn dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Adran 3 – Dadansoddiad o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Cwestiwn 1

A) Ydych chi'n cytuno â'r cymorth arfaethedig a gynigir gan y cynllun newydd?

B) Ydych chi'n cytuno y dylai cyngor yn y cartref gael ei gynnig i'r sawl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, lle bo'n briodol? Pa fath o gyngor yn y cartref a fyddai orau a phwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor o'r fath? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

1. Atebodd cyfanswm o **39** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif – 33 o ymatebwyr (85%) yn cytuno â'r cymorth arfaethedig a gynigir gan y cynllun newydd. Ni fynegodd y 6 ymatebydd arall (5%) safbwynt y naill ffordd neu'r llall. Nid oedd unrhyw ymatebydd (0%) yn anghytuno â'r cynigion, er bod nifer fach wedi cwstyfnu pam y gwaredir ar grantiau rhannol, gan awgrymu y gallai'r nifer isel hwn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth.
2. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â darparu cyngor yn y cartref i'r sawl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at fuddion y dull hwn o weithredu. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y dylai cyngor yn y cartref fod ar gael i bob aelwyd.
3. Ymysg y themâu allweddol a oedd yn digwydd dro ar ôl tro roedd yr angen i gyngor yn y cartref fod yn gyfannol, wedi'i deilwra, yn annibynnol, yn ddiuedd ac yn sicrhau ansawdd, gan ategu (yn hytrach na chystadlu â) gwasanaethau cynghori sydd eisoes yn bodoli. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai angen mwy nag un ymweliad i asesu anghenion aelwyd yn briodol ac annog newid mewn ymddygiad yn barhaol.
4. Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau o safbwynt pa gyngor yn y cartref fyddai'n fwyaf buddiol, ac ymysg y pynciau mwyaf poblogaidd oedd: y cymorth arall sydd ar gael, lleihau cost ynni, defnyddio mesurau sydd wedi'u gosod a newid tariff.
5. Er bod rhai ymatebwyr wedi defnyddio'r cwestiwn hwn i gynnig syniadau i ddarparwyr cyngor addas, y consensws cyffredinol oedd nad oes unrhyw un sefydliad yn y sefyllfa orau i gynnwys pob ardal a grŵp, a chafwyd awgrymiadau ar gyfer dull amlasiantaeth o weithio, a chroesgyfeirio rhwng cynlluniau cymorth.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 1

1. Rydym wedi penderfynu parhau â'r cymorth arfaethedig sydd i'w gynnig gan y cynllun, gan gynnwys cyngor a chymorth pen-blaen ac atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth perthnasol eraill a mesurau gwelliannau ynni yn y cartref am ddim a chyngor yn y cartref i aelwydydd cymwys.

2. Byddwn yn gofyn i Reolwr y Cynllun ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i fuddiolwyr Nest, gan adeiladu ar lwyddiant y cynllun Nest presennol, a pharhau â'r berthynas â darparwyr cymorth eraill.
3. O dan y trefniadau hyn, bydd cyngor a chymorth yn parhau i gael ei roi mewn amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys (ond heb gyfyngu i) effeithlonrwydd ynni a dŵr, dyled, tariffau ynni, gwirio hawl i fudd-daliadau a mesurau a gyflwynir.
4. Rydym wedi penderfynu gweithredu ar y cynigion i ddarparu cyngor yn y cartref i'r aelwydydd sy'n gymwys am welliannau ynni yn y cartref, gan y byddan nhw wedi'u nodi fel rhai sy'n byw ar incwm isel a'u bod yr adeiladau'n aneffeithlon o ran ynni. Mae hyn yn gyson â'n polisi i dargedu cymorth at yr aelwydydd mwyaf agored i niwed.
5. Rydym hefyd wedi penderfynu parhau i gael gwared ar y grantiau rhannol, opsiwn a oedd ar gael gan Nest i sicrhau elfen o gymorth budd-dal nad oedd yn dibynnu ar brawf modd. Ni chafodd grantiau rhannol eu marchnata'n eang gan iddynt gael eu cynnig dim ond pan maent yn golygu'r ateb gorau i'r aelwyd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd isel. O dan y cynigion newydd, bydd mesurau gwelliannau i'r cartref ar gael i rai aelwydydd penodol nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (aelwydydd ar incwm isel sydd â chyflwr iechyd cymwys) a byddant yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun newydd barhau i weithredu ar sail cartref cyfan o ran cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni? Os nad ydych, sut y byddech yn awgrymu y dylai weithredu? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

1. Atebodd cyfanswm o **37** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif ohonynt - 34 o ymatebwyr (92%) yn cytuno y dylai'r cynllun barhau i weithredu ar sail cartref cyfan o ran cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni. Dim ond un ymatebydd (3%) oedd yn anghytuno â'r sail cartref cyfan, ac roedd y 2 ymatebydd arall (5%) heb nodi eu dewis yn amlwg o ran y naill ffordd neu'r llall.
2. Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu ai trwy Nest y gweithredir ar sail cartref cyfan, gan dynnu sylw at y ffaith mai un mesur yn unig (yn gyffredinol boeleri) oedd wedi'i gyflwyno mewn amrywiol achosion. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd gwneud y gorau o ffynonellau eraill o gyllid, megis Rhwymedigaethau Cyflenwyr Ynni (ECO) er mwyn llwyddo i weithredu ar sail cartref cyfan gwirioneddol.
3. Roedd sawl ymatebydd yn argymhell y dylid ehangu'r ystod o fesurau gwelliannau ynni yn y cartref a gynigir gan y cynllun, a'r mwyaf cyffredin oedd ffenestri. Ymysg awgrymiadau eraill cafwyd drysau, bylbiau golau ynni isel, monitro'r defnydd o ynni yn y cartref, gwresogyddion is-goch ac LPG.

4. Cyfeiriodd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno â gweithredu ar sail cartref cyfan at gyfaddawd o ran y swm is o gartrefi y gellir eu trin drwy ddefnyddio'r dull hwn oherwydd mwy o fesurau'n cael eu cyflwyno.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 2

1. Rydym wedi penderfynu parhau i weithredu ar sail cartref cyfan o ran cyflwyno'r mesurau effeithlonrwydd ynni, lle bydd y pecyn mwyaf priodol a chost effeithiol o fesurau yn cael eu cyflwyno mewn eiddo yn dilyn asesiad o'r cartref cyfan. Mae cefnogaeth gref gan y rhanddeiliaid i barhau â'r dull hwn o weithredu.
2. Mae rhai rhanddeiliaid wedi cwestiynu a gyflawnwyd y dull hwn o weithredu drwy Nest, gan ddweud mai dim ond un mesur a gyflwynwyd mewn nifer o achosion. Gall hyn fod oherwydd y dull yr adroddir ar rai mesurau ar hyn o bryd, gan eu bod yn awgrymu un mesur e.e. 'Gosod Gwres Canolog', pan fydd hyn mewn gwirionedd yn cynnwys boeler newydd, rheiddiaduron, thermostatau ystafell, gwaith pibell ac ati. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellid darparu mesurau eraill cost isel megis goleuadau ynni-effeithlon, inswleiddio drafftiau ac ati.
3. Er nad ydym yn bwriadu eithrio'n llwyr unrhyw fesurau o'r cynllun newydd, dim ond y mesurau mwyaf priodol a chost-effeithiol fydd yn cael eu cyflwyno, yn ôl yr hyn a bennir gan asesydd cymwys y cynllun. Fodd bynnag, ein nod yw sicrhau'r gorau o ran yr amrywiaeth o fesurau cost isel, megis bylbiau golau ynni isel, sy'n golygu ystod ehangach o fesurau fesul eiddo a byddwn yn adolygu hyn wrth i dechnolegau newydd a chost-effeithiol ddod i'r amlwg. Ni fyddem yn disgwyl argymell inswleiddio waliau mewnlol mewn llawer o achosion o ystyried yr amharu a'r costau ailaddurno fyddai hynny'n ei olygu i aelwydydd. Hefyd, rydym yn rhagweld mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried gosod ffenestri newydd, er enghraifft pan fyddai hynny'n caniatáu i fesurau eraill gael eu gwneud.
4. Byddwn yn sicrhau bod dyluniad y cynllun yn caniatáu ar gyfer denu'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill megis ECO.

Cwestiwn 3

A) Ydych chi'n cytuno y dylai mesurau effeithlonrwydd ynni barhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd? Os nad ydych yn cytuno, sut y dylem, yn eich barn chi, gydbwyso'r gwaith o gefnogi aelwydydd unigol â gwelliannau cost uchel â sicrhau bod cynifer o aelwydydd incwm isel â phosibl yn elwa o'r cynllun, o fewn y cyllidebau sydd ar gael? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

B) A ddylai terfynau gwario fod yn gymesur ag effeithlonrwydd ynni'r eiddo? Os felly, pa derfynau a ddylai fod yn gymwys i eiddo â chyflenwad nwy a heb gyflenwad nwy? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

1. Atebodd cyfanswm o **36** o randdeiliaid ran A) y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif ohonynt – 22 o ymatebwyr (61%) yn cytuno y dylai mesurau effeithlonrwydd ynni barhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd. Dim ond 2 ymatebydd (6%) oedd yn anghytuno, ac nid oedd y 12 ymatebydd arall (33%) wedi nodi'n amlwg y naill ffordd neu'r llall.

2. Rhoddodd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig resymau dros hynny, gan gynnwys osgoi gwario symiau anghymesur ar eiddo unigol, sicrhau mwy o degwch ar draws y cynllun, a galluogi mwy o aelwydydd i elwa o'r gwelliannau a biliau ynni llai. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn teimlo bod y terfynau yn tanseilio gwerth y dull o asesu'r cartref cyfan, gan ddadlau y dylai'r cynllun ymgymryd ag unrhyw waith neu'r holl waith sy'n ofynnol. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw eglurhad o ran sut y byddai hyn yn cyflawni cydbwysedd rhwng cefnogi aelwydydd unigol a helpu cymaint o aelwydydd incwm isel â phosibl.
3. Hyblygrwydd oedd y thema allweddol, gyda'r ymatebwyr yn awgrymu caniatáu lwfans canran i derfynau (10% oedd yr awgrym mwyaf cyffredin) mewn amgylchiadau eithriadol, megis achosion pan fyddai defnyddio'r terfyn yn llym yn arwain at fethu â chyflwyno unrhyw fesurau.
4. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd terfynau sydd eisoes yn bodoli wedi bod yn rhwystr i gyflawni amcanion y cynllun cyfredol. Roedd rhai'n teimlo bod y terfynau'n rhy isel ac yn gadael ychydig iawn o sgôp ar gyfer mesurau costus megis Inswleiddio Waliau Solet. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn cytuno'n unfrydol â pharhau i gael terfyn uwch ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy, a chafwyd cwestiynau tebyg ynghylch a yw'r terfynau'n ddigon uchel.
5. Dim ond 18 o ymatebwyr a atebodd ran (B) y cwestiwn hwn, sy'n ymwneud â chynigion i wneud terfynau gwario'n gymesur â chyfraddau effeithlonrwydd ynni cychwynnol yr eiddo. Roedd 16 o'r rhain (89%) yn cytuno y dylai terfynau gwario fod yn gymesur ag effeithlonrwydd ynni'r eiddo, a'r 2 ymatebydd arall (11%) yn anghytuno. Ni chafwyd awgrym amgen cyffredin i'r dull a gynigiwyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 3

1. Rydym wedi penderfynu y bydd mesurau effeithlonrwydd ynni yn parhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd ac y dylai terfynau fod yn gymesur â chyfradd effeithlonrwydd ynni cychwynnol yr eiddo. Mae hyn yn golygu bod mwy o aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed yn gallu elwa o'r cynllun, gan daclo tlodi tanwydd ar raddfa ehangach a sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer yr eiddo sy'n fwyaf aneffeithlon o ran ynni. Hefyd, byddwn yn ceisio gwneud y gorau o bob cyfle i ddenu cyllid o ffynonellau eraill, megis ECO, i hyrwyddo'r cymorth a ddarperir i aelwydydd yng Nghymru.
2. Rydym yn ystyried cynnwys elfen fach o hyblygrwydd (o bosibl 10%) i derfynau gwariant mewn amgylchiadau eithriadol, megis pan fydd y terfyn gwario'n arwain at beidio â chyflwyno mesurau mewn eiddo cymwys. Bydd yr achosion hyn yn agored i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fesul achos er mwyn sicrhau cysondeb a phriodoldeb.
3. Bydd union lefel y terfynau yn cael ei phennu yn dilyn Asesiad Effaith llawn. Yn rhan o hyn, byddwn yn edrych ar effaith gwahanol derfynau ar amcanion y cynllun.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig a'r rhestr o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ar gyfer y cynllun newydd?

Os nad ydych, pa feini prawf y byddech yn eu cynnig? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb. Byddai angen i unrhyw gynnis amgen ystyried y gofyniad i gynnal nifer briodol o aelwydydd cymwys.

1. Atebodd cyfanswm o **33** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Roedd 8 o ymatebwyr (24%) yn cytuno â'r meini prawf cymhwysedd a gynigir, ac roedd 5 ymatebydd (15%) heb nodi'n amlwg y naill ffordd neu'r llall. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif – 20 o ymatebwyr (61%) yn anghytuno â'r meini prawf cymhwysedd a gynigir, a rhai'n teimlo eu bod wedi adlewyrchu'r argymhellion yn adroddiad y CSE yn rhannol yn unig.
2. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anghytuno â'r meini prawf cymhwysedd oedd y cynnig i gyflwyno gofynion o ran oedran. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y meini prawf arfaethedig yn rhy gaeth, gan adael bylchau sylweddol mewn ystod o grwpiau fel teuluoedd mewn gwaith ar incwm isel, aelwydydd lle ceir preswylwyr anabl ac aelwydydd â phensiynwyr incwm isel dan 75 oed.
3. Mewn cysylltiad â'r rhestr arfaethedig o fudd-daliadau sy'n ddibynnol ar brawf modd, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai rhai budd-daliadau gael eu hystyried i fod yn gymwys, neu barhau i fod yn gymwys, a thema gyffredin oedd "y bobl dlawd sy'n gweithio" a'r sylw mwyaf ar Leihau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.
4. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu ac yn cytuno â'r cynigion i ehangu cymhwysedd i aelwydydd ar incwm isel sydd â chyflyrau iechyd. Ond roedd llawer yn teimlo y dylid cynnwys cyflyrau eraill hefyd, megis iechyd meddwl. Hefyd, roedd rhai o'r farn mai dim ond ychydig iawn o bobl fyddai'n gymwys dan y maen prawf hwn oherwydd bod anhawster nodi pobl â'r cyflyrau iechyd hyn.
5. Er bod ymatebwyr wedi awgrymu y dylai grwpiau ychwanegol fod yn gymwys am gymorth, nid oedd unrhyw un yn gallu awgrymu ateb sy'n ystyried y gofyniad i gynnal cronfa o aelwydydd cymwys o faint priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 4

1. Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig yng ngoleuni'r pryderon cryf gan randdeiliaid y gallai hynny arwain at eithrio rhai grwpiau o aelwydydd ar incwm isel sy'n agored i niwed. Rydym wedi penderfynu cadw at y meini prawf cymhwysedd Nest presennol, sy'n cael cefnogaeth rhanddeiliaid yn gyffredinol.
2. Nodwn fod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y meini prawf a gynigir wedi adlewyrchu argymhellion yr CSE yn rhannol yn unig. Ymddengys bod rhanddeiliaid yn cyfeirio mewn gwirionedd ar y 'grŵp targed' a argymhellwyd gan CSE, yn hytrach na'r meini prawf cymhwysedd a argymhellir, a luniwyd i gynnal cronfa o faint sy'n hawdd ei rheoli o aelwydydd cymwys ac yn ffurfio'r sail ar gyfer y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.

3. Er y byddwn yn cadw at brif feini cymhwysedd Nest, rydym wedi penderfynu parhau gyda'n cynnig i ymestyn cymhwysedd i aelwydydd ar incwm isel sydd ag aelod yn dioddef o gyflwr anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed. Yn ôl y CSE dyma'r cyflyrau sy'n fwyaf tebygol o waethygu o effeithiau byw mewn cartref oer. Rydym yn ystyried neilltuo cyfran o gyllid y cynllun yn benodol i'r aelwydydd hyn, a byddwn yn treialu hyn a'i adolygu ar ôl 12 mis. Yn ystod yr amser hwn byddwn yn edrych i weld a ddylid cynnwys cyflyrau eraill yn y tymor hwy.
4. O ran iechyd meddwl, byddwn yn ceisio adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth er mwyn deall yn well pa gyflyrau iechyd meddwl sy'n cael eu heffeithio fwyaf o fyw mewn cartref oer. Byddwn yn gweithio'n agos â phartneriaid iechyd i nodi pa gyflyrau a ddylai gael eu blaenoriaethu i gael cefnogaeth a'r ffordd fwyaf priodol o dargedu'r grŵp hwn.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gefnogi'r sector rhentu preifat yn achos y rheini y defnyddir eu heiddo i helpu pobl ddigartref, ond y dylai pob landlord preifat arall gael ei annog i wella effeithlonrwydd ynni ei eiddo drwy fenthyciadau ad-daladwy cost isel?

1. Atebodd cyfanswm o **35** o randdeiliaid y cwestiwn hwn Roedd 10 o ymatebwyr (29%) yn cytuno â'r cynigion ac 8 ymatebydd arall (23%) yn cytuno'n rhannol neu heb nodi'n amlwg y naill ffordd neu'r llall. Fodd bynnag, roedd y grŵp mwyaf – 17 o ymatebwyr (49%) yn anghytuno â'r cynigion gan nodi'r sail dystiolaeth wan ar y pryd, lefel uchel tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni isel y stoc dai yn y sector rhentu preifat.
2. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr ar y cyfan yn derbyn mai landlordiaid preifat ddylai fod yn gyfrifol am gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo. Ond roeddent yn teimlo nad nawr yw'r amser cywir i'w symud oddi wrth gymorth grant dan y cynllun oherwydd y diffyg dulliau cymorth amgen cyfredol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn nad oedd 'Benthyciadau Gwella Cartrefi' yn ddull amgen digonol ynddynt eu hunain oherwydd diffyg cymhellion neu anghymhellion i sicrhau bod landlordiaid yn cymryd camau yn y maes hwn.
3. Awgrymwyd nifer o opsiynau cymorth amgen, gan gynnwys darparu benthyciadau ffioedd teg, grantiau ad-daladwy, grantiau rhannol, cysylltu sgôr EPC â bandiau'r dreth gyngor a hyfforddiant ymwybyddiaeth i landlordiaid preifat. Cafwyd awgrym hefyd o gostau archwilio sy'n ariannu eu hunain ar gyfer y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), ac ad-droseddwy'r talu am gostau camau gorfodi.
4. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cryfhau'r ddeddfwriaeth lywodraethu, yn ogystal â mwy o gydgyssylltu â Rhentu Doeth Cymru i nodi cyfleoedd i annog landlordiaid i wella effeithlonrwydd eu heiddo.

5. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai eiddo rhentu preifat sy'n cefnogi digartrefedd barhau i fod yn gymwys. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at gytundebau lefel gwasanaeth cyfredol sydd gan rai awdurdodau lleol eisoes â'r landlordiaid hyn yn gwarantu incwm, ac roedd teimpladau cymysg ymysg rhanddeiliaid ynghylch a oes angen cymhelliad arall mewn gwirionedd drwy'r cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 5

1. Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig i beidio â rhoi cymorth grant i'r sector rhentu preifat (mesurau gwelliannau ynni yn y cartref am ddim) ar hyn o bryd.
2. Ein sefyllfa polisi yw tynnu'r hawliad i gymorth grant oddi ar y sector rhentu preifat dros amser; fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r mecanweithiau cymorth amgen angenrheidiol i gyflawni hyn yn eu lle ar hyn o bryd. Felly, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ymdrin â hyn, gan wneud yn siŵr nad yw tenantiaid mewn tlodi tanwydd sy'n byw mewn eiddo rhentu preifat yn cael eu gadael ar ôl. Yn y cyfamser, rydym yn cynnig y bydd eiddo rhentu preifat yn dal i fod yn gymwys, yn amodol ar ofynion ychwanegol. Er enghraifft, rydym yn ystyried a ddylid cynnwys y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yn y broses, gan ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gael gwared ar unrhyw beryglon y gellir eu nodi.
3. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Rhentu Doeth Cymru i nodi cyfleoedd i annog y sector rhentu preifat i fuddsoddi yn effeithlonrwydd ynni yr eiddo y maent yn eu rhentu. Mae eisoes yn ofynnol i landlordiaid preifat gofrestru â Rhentu Doeth Cymru er mwyn gwneud cais am gymorth drwy'r cynllun Nest presennol.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'r hyn a gynigir o ran dangos bod yr aelwydydd canlynol yn gymwys:

a) Aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ac sydd ag aelod sydd dros 75 oed neu dan bump oed.

b) Aelwydydd sydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed?

Os nad ydych yn cytuno, sut y byddech yn cynnig y dylai aelwydydd ddangos cymhwysedd? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

1. Atebodd cyfanswm o **29** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Rhoddodd rhai ohonynt atebion unigol i a) a b), rhoddodd rhai ateb o le a Na cyffredinol a rhoddodd eraill sylwadau cyffredinol yn unig.

a) Aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n ddibynnol ar brawf modd cymwys ac sydd ag aelod dros 75 oed neu dan bump oed.

2. Roedd 16 o ymatebwyr (55%) yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddangos cymhwysedd ar gyfer yr aelwydydd hyn, dim ond un ymatebydd (3%) oedd yn anghytuno, ac nid oedd 12 o ymatebwyr (41%) wedi nodi'n glir y naill ffordd neu'r llall. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r defnydd parhaol o fudd-daliadau sy'n ddibynnol ar brawf modd i ddangos cymhwysedd, naill ai drwy gyfateb data, os yw ar gael, neu drwy ddarparu dogfennaeth ategol ar gam asesu'r cartref cyfan.

b) Aelwydydd ar incwm cymharol isel sydd ag aelod yn dioddef o glefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed

3. Roedd 11 o ymatebwyr (38%) yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddangos cymhwysedd ar gyfer yr aelwydydd hyn. Nid atebodd yr 18 arall o ymatebwyr (62%) y rhan hon o'r cwestiwn neu ni wnaethant nodi'n amlwg y naill ffordd neu'r llall. Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr (0%) anghytuno.

4. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r system atgyfeirio trydydd parti arfaethedig, er y codwyd pryderon ynghylch cost, cysondeb rhwng partneriaid atgyfeirio, ac na fyddai aelwydydd nad ydynt mewn cysylltiad â'r cyrff hyn o bosibl yn cael cymorth. Themâu cyffredin oedd yr angen i'r broses fod yn un syml a chost-effeithiol, hyrwyddo cyfateb data, gweithio ar y cyd ag ECO a gwrthsefyll her gadarn.

5. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at yr angen am gysylltiad proffesiynol meddygol er mwyn cadarnhau cyflyrau iechyd cymwys mewn modd sy'n golygu dim cost i'r ymgeiswyr. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i ddatblygu gweithdrefn syml i feddygon teulu gyflawni hyn a chodi ymwybyddiaeth meddygfeydd cyffredinol i annog atgyfeiriadau a chyfeiriadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 6

1. Rydym wedi penderfynu parhau â'r cynigion i ddangos cymhwysedd fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, gan hyrwyddo cyfateb data lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
2. Darperir canllawiau i'r holl bartneriaid atgyfeirio trydydd parti cymwys i sicrhau cysondeb â gwirio cymhwysedd. Bydd hyn yn cynnwys manylion ynghylch pa gyflyrau iechyd anadlol a chylchrediad y galon sy'n gymwys a chanllawiau ar y categorïau perthnasol ar gyfer incwm cymharol isel, a fydd yn seiliedig ar gyfansoddiad yr aelwyd. Mae ystyried nifer y plant yn arbennig o bwysig, oherwydd gall hyn gael effaith sylweddol ar y graddau y mae aelwyd yn debygol o ddioddef o dlodi tanwydd.
3. Trafodir y cysylltiad sydd gan weithwyr iechyd proffesiynol o ran cadarnhau'r elfen iechyd o gymhwysedd yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 7.

Cwestiwn 7

A) Pa sefydliadau fyddai yn y sefyllfa orau i weithredu fel partneriaid atgyfeirio ar gyfer aelwydydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y galon?

B) Sut y gallai unigolion ddangos bod ganddynt gyflwr iechyd cymwys?

C) Sut y dylai system atgyfeirio gael ei hariannu yn eich barn chi?

1. Atebodd cyfanswm o **29** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Roedd themâu cyffredin yn cynnwys yr angen i bartneriaid atgyfeirio fod yn sefydliadau cydnabyddedig, yn annibynnol ac yn rhai y gellir ymddiried ynddynt, â'r gallu ganddynt i ddarparu gwasanaeth cadarn a chost-effeithiol ledled Cymru. Awgrymwyd ystod o bartneriaid atgyfeirio posibl, a'r rhai mwyaf cyffredin oedd Gofal a Thrwsio Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyngor ar Bopeth ac, yn fwy cyffredinol, fudiadau trydydd sector. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod prinder sefydliadau Cymru gyfan a fyddai'n barod i dreulio amser ar gymwysiadau Nest ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gwsmeriaid/cleientiaid presennol.
2. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai angen cyllid ychwanegol ar bartneriaid atgyfeirio er mwyn darparu'r gwasanaeth ychwanegol hwn, a chafwyd teimladau cymysg o ran a ddylai hyn fod ar ffurf cyllid grant neu'n ffi fesul atgyfeiriad llwyddiannus. Roedd y rhai hynny o blaid cyllid grant yn teimlo bod hyn yn llinell sylfaen fwy sefydlog i gynllunio adnoddau staff a darparu'r hyfforddiant angenrheidiol. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai hyn yn dwyn cyllid oddi ar y gwasanaeth ei hunan, gan ffafrio ffi fesul atgyfeiriad llwyddiannus.
3. Roedd consensws cyffredinol y byddai angen mewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol i'r system atgyfeirio, a byddai'r rheini wedi cael eu hyfforddi i nodi a phennu cyflyrau iechyd cymwys mewn dull anymwthiol. Ymysg yr awgrymiadau mwyaf cyffredin cafwyd meddygon teulu, elusennau lechyd, Byrddau lechyd Lleol a thimau rhyddhau cleifion o ysbyty. Roedd dulliau awgrymedig o gyflwyno tystiolaeth o gyflyrau yn cynnwys llythyr gan feddyg teulu, derbyn budd-dal nad yw'n ddibynnol ar brawf modd, presgripsiwn am feddyginiaeth a ragnodwyd ymlaen llaw, codau darllen / codau ICD-10 a ddelir gan feddygon teulu a chyfateb data.
4. Darparwyd enghreifftiau o gynlluniau / dulliau tebyg gan rai ymatebwyr, y gellid adeiladu'r cynllun newydd arnynt, gyda chyfeiriadau at y 'Meddyg Tŷ', 'Cartrefi Clyd ar Bresgripsiwn' a chynlluniau presgripsiwn boeler eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 7

1. Byddem yn disgwyl i'r holl bartneriaid a darparwyr cymorth barhau i ddarparu atgyfeiriadau a chyfeirio at y cynllun. Hefyd, bydd y rheolwr cynllun llwyddiannus yn gyfrifol am gaffael ac ariannu nifer fach o 'bartneriaid atgyfeirio trydydd parti' addas (uchafswm o 3) i gynnwys grwpiau o bob oedran, ar draws Cymru gyfan. Bydd y sefydliadau hyn yn gyfrifol am wirio a chadarnhau elfen incwm cymhwysedd gan ddilyn arweiniad clir gan reolwr y cynllun i sicrhau cysondeb.
2. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu system syml, effeithlon a chost-effeithiol a fydd yn dangos cyflwr iechyd cymwys mewn modd sy'n osgoi unrhyw gostau i'r ymgeiswyr.

Cwestiwn 8

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau o dargedu'r rheini â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y gwaed?

1. Atebodd cyfanswm o **26** o randdeiliaid y cwestiwn hwn. Thema gyffredinol oedd yr amgen am ddull cydweithredol amlasiantaeth o weithredu, ac awgrymodd ymatebwyr sefydliadau a ddylai gymryd rhan yn y gwaith o dargedu'r aelwydydd hyn. Yn benodol, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cysylltiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol megis Byrddau Iechyd Lleol, meddygfeydd, nyrsys cymunedol a chlinigau arbenigol i annog atgyfeiriadau a chyfeirio uniongyrchol.
2. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid anfon llythyrau allan yn uniongyrchol, a hynny'n cael ei reoli gan y meddygfeydd, a'r defnydd posibl o 'Godau Darllen / Godau ICD-10' a ddeler gan feddygon teulu i dargedu'r rhai hynny â chyflyrau iechyd cymwys. Ymysg awgrymiadau eraill cafwyd ymgysylltu â gweithwyr rheng-flaen, elusennau, clinigau anadlol ac asthma, digwyddiadau allgymorth a'r defnydd o 'Gofrestri Gwasanaethau Blaenoriaeth'. Thema allweddol llawer o'r ymatebion hyn oedd y swyddogaeth bwysig o rannu data.
3. Yn ychwanegol at hyn, darparwyd nifer o enghreifftiau o raglenni sydd eisoes yn bodoli, y gellid eu defnyddio ar gyfer dysgu ac arfer gorau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 8

1. Byddwn yn defnyddio cyfateb data lle bynnag y bydd hynny'n bosibl i dargedu'r rhai hynny sy'n gymwys am gymorth. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol i sefydlu dulliau atgyfeirio a thargedu i gyrraedd y grŵp targed newydd hwn, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd o gynlluniau presennol a blaenorol, pan mae'r rheini ar gael.
2. Er enghraifft, byddwn yn edrych ar ymarferoldeb llythyrau'n cael eu hanfon allan gan feddygfeydd at y rhai hynny sy'n dioddef o gyflyrau iechyd cymwys i'w hysbysu nhw o'r cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun a rhoi manylion cysylltu i bartneriaid atgyfeirio er mwyn cadarnhau'r elfennau eraill o gymhwysedd.

Cwestiwn 9

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

1. Rhoddodd **24** o randdeiliaid wybodaeth ychwanegol yn rhan o'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ailadrodd pwyntiau a wnaed wrth ymateb i gwestiynau cynharach neu'n amlinellu canfyddiadau o waith ymchwil a wnaed mewn meysydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Ceir isod drosolwg o'r sylwadau na chyfeiriwyd atynt o'r blaen.
2. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod diffyg eglurder ynghylch amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun. Cyfeiriwyd at symudiad oddi wrth raglen i ddileu tlodi tanwydd tuag at gynllun sy'n canolbwyntio'n gryf ar atal derbyniadau i feddygfeydd ac ysbytai.
3. Cyflwynwyd ystod eang o awgrymiadau ar ddyluniad y cynllun, megis ymgorffori 'cronfa argyfwng' ar gyfer ateb brys i broblem gwresogi, dyrannu potiau ar wahân o arian i grwpiau gwahanol (gan gynnwys y rhai hynny sydd ar fin dioddef o dlodi tanwydd) a tharged negeseuon am y cynllun at unrhyw un nad oes ganddo sgiliau rheoli arian.
4. Tynnwyd sylw gan rai ymatebwyr at yr angen i ystyried deddfwriaeth neu ofynion trin data penodol. Defnyddiwyd y cwestiwn hwn gan eraill i geisio eglurder ar elfennau o'r ymgynghoriad, gan gynnwys cyllideb y cynllun ac a fyddai cartrefi mewn parciau yn gymwys.
5. Gwnaed nifer o sylwadau ehangach mewn cysylltiad â pholisi ehangach o ran effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau am eglurder ar gynlluniau a chyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru, maint yr adnoddau a gweithgarwch presennol ar dlodi tanwydd. Cafwyd ceisiadau am darged tlodi tanwydd newydd yn seiliedig ar wella'r nifer darged o gartrefi incwm isel bob blwyddyn, ac am wneud effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn flaenoriaeth seilwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiwn 9

1. Nodir amcanion a chymau gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer tlodi tanwydd yn [Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010](#), sy'n parhau i fod yn ddogfen fyw. Mae hyn yn cynnwys cam i sicrhau bod mesurau a gyflwynir drwy ein cynlluniau ni yn cael eu targedu at yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Dyluniwyd y meini prawf cymhwysedd arfaethedig gan gadw hyn mewn cof, yn seiliedig ar argymhellion y CSE. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu gwneud newidiadau pellach gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid, fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 4.
2. Bydd dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer y cynllun yn cael ei bennu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, yn dilyn cyhoeddi a chymeradwyo Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2016.

3. Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2, nid ydym yn bwriadu eithrio unrhyw fesurau o'r cynllun. Ond pennir y mesurau mwyaf priodol a chost-effeithiol gan asesydd cynllun cymwys yn dilyn asesiad cartref cyfan. Rhestrir y mesurau cyfredol yn Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd.
4. Nid ydym yn bwriadu creu 'cronfa argyfwng' na dyrannu cyllid ar wahân i'r rhai hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd gan fod y cynllun wedi'i ddylunio i flaenoriaethu cymorth ar gyfer yr aelwydydd mwyaf agored i niwed. Bydd aelwydydd nad ydynt yn gymwys am fesurau yn cael yr hawl i gymorth a chynngor diduedd, ac yn cael eu hatgyfeirio i gael cymorth arall sydd ar gael.
5. Bydd cartrefi mewn parciau yn dal i fod yn gymwys dan y cynllun newydd, yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd sy'n weddill.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yr ydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i fwrw ymlaen yn y broses gaffael ar gyfer rheolwyr cynllun ar gyfer *Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru*, sy'n cynnwys ein cynlluniau *Nyth* ac *Arbed*. Rydym yn disgwyl i fynd allan i dendr ar gyfer *Nyth* o gwmpas Chwefror 2017.

Byddwn yn cynnal nifer o grwpiau ffocws i geisio cael adborth gan y derbynyddion posibl y cynllun yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn newydd a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i baratoi ar gyfer cychwyn y cynllun ar 1 Medi 2017.

Byddwn hefyd yn gweithio ar y rheoliadau ar gyfer y cynllun newydd a byddai'n disgwyl i gyhoeddi asesiad effaith rheoleiddiol yn wanwyn 2017. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o opsiynau amrywiol ar gyfer capiau gwariant.

Atodiad 1 – Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1
<p>A) Ydych chi'n cytuno â'r cymorth arfaethedig a gynigir gan y cynllun newydd?</p> <p>B) Ydych chi'n cytuno y dylai cyngor yn y cartref gael ei gynnig i'r sawl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, lle bo'n briodol? Pa fath o gyngor yn y cartref a fyddai orau a phwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor o'r fath? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.</p>
Cwestiwn 2
<p>Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun newydd barhau i weithredu ar sail cartref cyfan o ran mesurau effeithlonrwydd ynni? Os nad ydych, sut y byddech yn awgrymu y dylai weithredu? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.</p>
Cwestiwn 3
<p>A) Ydych chi'n cytuno y dylai mesurau effeithlonrwydd ynni barhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd? Os nad ydych yn cytuno, sut y dylem, yn eich barn chi, gydbwysu'r gwaith o gefnogi aelwydydd unigol â gwelliannau cost uchel â sicrhau bod cynifer o aelwydydd incwm isel â phosibl yn elwa o'r cynllun, o fewn y cyllidebau sydd ar gael? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.</p> <p>B) A ddylai terfynau gwario fod yn gymesur ag effeithlonrwydd ynni'r eiddo? Os felly, pa derfynau a ddylai fod yn gymwys i eiddo â chyflenwad nwy a heb gyflenwad nwy? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb</p>
Cwestiwn 4
<p>Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig a'r rhestr o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ar gyfer y cynllun newydd?</p> <p>Os nad ydych, pa feini prawf y byddech yn eu cynnig? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb. Byddai angen i unrhyw gynnig amgen ystyried y gofyniad i gynnal nifer briodol o aelwydydd cymwys.</p>
Cwestiwn 5
<p>Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gefnogi'r sector rhentu preifat yn achos y rheini y defnyddir eu heiddo i helpu pobl ddigartref, ond y dylai pob landlord preifat arall gael ei annog i wella effeithlonrwydd ynni ei eiddo drwy fenthyciadau ad-daladwy cost isel?</p>
Cwestiwn 6
<p>Ydych chi'n cytuno â'r hyn a gynigir o ran dangos bod yr aelwydydd canlynol yn gymwys:</p> <p>a) Aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ac sydd ag aelod sydd dros 75 oed neu dan bump oed.</p> <p>b) Aelwydydd sydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed?</p> <p>Os nad ydych yn cytuno, sut y byddech yn cynnig y dylai aelwydydd ddangos cymhwysedd? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.</p>

Cwestiwn 7

- A) Pa sefydliadau fyddai yn y sefyllfa orau i weithredu fel partneriaid atgyfeirio ar gyfer aelwydydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y galon?
- B) Sut y gallai unigolion ddangos bod ganddynt gyflwr iechyd cymwys?
- C) Sut y dylai system atgyfeirio gael ei hariannu yn eich barn chi?

Cwestiwn 8

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau o dargedu'r rheini â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y gwaed?

Cwestiwn 9

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Atodiad 2 – Crynodeb o'r gweithdy i randdeiliaid

Yn rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid ar 5 Hydref 2016 gan ddwyn ynghyd ystod o randdeiliaid allweddol o wahanol sectorau i drafod prif agweddau ar yr ymgynghoriad. Roedd cynrychiolaeth dda o ystod o sectorau yn bresennol yn y digwyddiad. Mae rhestr lawn o'r rhai a oedd yn bresennol isod.

- Nwy Prydain
- Cyngor Sir Caerffili
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Y Ganolfan Ynni Cynaliadwy
- Plant yng Nghymru
- Canolfan Cyngor ar Bopeth
- EMME Group Limited
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Cyngor Sir Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- National Energy Action
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cartrefi Clyd Nest
- Un Llais Cymru
- Cyngor Sir Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- RNIB Cymru
- Scottish and Southern Energy
- Scottish Power
- Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru
- Canolfan Gyngori Speakeasy
- Grŵp Datblygu Cynaliadwy - Caerdydd
- Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru
- Cyngor Sir Torfaen
- Utilita
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cymru Gynnes
- CLILC

Diben y digwyddiad hwn oedd rhoi i randdeiliaid y cefndir ar gyfer cynigion Llywodraeth Cymru i ddylunio a chyflwyno'r cynllun newydd, a gofyn am safbwyntiau, sylwadau a syniadau'r rhanddeiliaid ar bob cynnig, gan gynnwys sut y gallai'r rhain weithio'n ymarferol. Roedd yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol yn y ddogfen ymgynghori (cwestiynau 1, 3, 4 a 7) yn ymwneud â'r cymorth a gynigir gan y cynllun, y terfynau gwario fesul aelwyd, meini prawf a system atgyfeirio trydydd parti i aelwydydd sydd â'u haelodau'n dioddef o gyflyrau iechyd.

Rhannwyd y rhai a oedd yn bresennol yn bedwar grŵp cymysg o wahanol sectorau a gofynnwyd iddynt drafod pob cwestiwn. Cofnodwyd y prif themâu gan hwylusydd / cofnodydd ar bob bwrdd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pwyntiau trafod a oedd yn codi dro ar ôl tro, yn ogystal ag awgrymiadau / sylwadau ysgrifenedig ychwanegol a gafwyd yn ystod y digwyddiad.

Cwestiwn 1

A) Ydych chi'n cytuno â'r cymorth arfaethedig a gynigir gan y cynllun newydd?

B) Ydych chi'n cytuno y dylai cyngor yn y cartref gael ei gynnig i'r sawl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, lle bo'n briodol? Pa fath o gyngor yn y cartref a fyddai orau a phwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor o'r fath? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

Prif Bwyntiau Trafod

- Yn cytuno â'r cymorth sydd i'w gynnig, er y bydd cyngor yn y cartref yn her i'w gyflwyno'n gost-effeithiol ledled Cymru. Dylai cyngor yn y cartref ddefnyddio gwasanaethau presennol a ddarperir gan sefydliadau eraill a gweithredu mewn modd cyfannol.
- Mae angen i'r cyngor fod yn eang, yn barhaol ac yn hyblyg, gan gyfeirio at wasanaethau cymorth eraill. Ni ddylid defnyddio un dull ar gyfer pawb.
- Dylai'r cyngor ddangos sut i ddefnyddio a manteisio i'r eithaf ar y mesurau a gyflwynir.
- Gallai problemau godi o ran "gwerthu ar stepen y drws" mewn cysylltiad ag unrhyw gyngor ar newid cyflenwyr.
- Mae angen rheoli'n gywir unrhyw gyngor ar fesurau priodol i eiddo. Cyfeiriwyd at Adolygiad Bonfield.
- Dylid darparu hamper effeithlonrwydd ynni i aelwydydd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
- Mae gan gymunedau gwledig systemau gwresogi gwahanol felly byddai angen cyngor gwahanol. Dylai'r sawl sy'n gosod y system ddarparu'r cyngor hwn a dylai fod yn gyngor annibynnol.
- Gellid cael gwared ar grantiau rhannol drwy gysylltu ag ECO, gan ganolbwyntio ar fesurau inswleiddio.

Adborth Ysgrifenedig Ychwanegol

- Mae angen digon o gyllid ar Awdurdodau Lleol i gyflwyno mesurau di-log i gleientiaid heb gost o gwbl i'r ymgeisydd.
- Materion gwledig – mae gwybodaeth am Bymptiau Gwres o'r Awyr, LPG, Olew a dulliau talu cysylltiedig a chlybiau olew yn bwysig mewn ardaloedd gwledig.

Cwestiwn 3

A) Ydych chi'n cytuno y dylai mesurau effeithlonrwydd ynni barhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd? Os nad ydych yn cytuno, sut y dylem gydbwyso'r gwaith o gefnogi aelwydydd unigol â gwelliannau cost uchel â sicrhau bod cynifer o aelwydydd incwm isel â phosibl yn elwa o'r cynllun, o fewn y cyllidebau sydd ar gael? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

B) A ddylai terfynau gwario fod yn gymesur ag effeithlonrwydd ynni'r eiddo? Os felly, pa derfynau a ddylai fod yn gymwys felly i eiddo â chyflenwad nwy a heb gyflenwad nwy? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

Prif Bwyntiau Trafod

- Yn cytuno bod terfynau gwario yn ddull gwerthfawr ond dylai fod yn fwy hyblyg a chael ei lywio gan yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni.

- Yn cytuno y dylai therfynau fod yn gymesur â sgôr SAP cychwynnol, â therfynau uwch i eiddo â sgôr F ac G. Dylid adolygu hyn. Yn cytuno na ddylid cynnwys eiddo â sgôr D.
- Dylai'r cynllun hwn alluogi trawsgyllido o ffynonellau eraill, gan helpu i gyflawni dull cartref cyfan holistaidd. Awgrym i gysylltu ag Arbed a chyllid arall LIC i sicrhau'r fantais orau i eiddo.
- Dylai'r cynllun weithredu dull poblogaeth, gan ddiogelu poblogaethau gwledig.
- Mae angen hwn o hyblygrwydd ar y deiliad tŷ ac anghenion yr eiddo yn hytrach na therfynau a sgôr SAP yn unig. Awgrymwyd hyblygrwydd o 10% mewn amgylchiadau eithriadol.
- Dylid ychwanegu mwy o fesurau sy'n addas ar gyfer ystod ehangach o eiddo – â chyflenwad nwy, heb gyflenwad nwy, oedran yr eiddo. Er enghraifft: drysau, ffenestri, olew ac ati.
- Dylid defnyddio data o gynlluniau blaenorol i lywio dyluniad y cynllun.

Adborth Ysgrifenedig Ychwanegol

- Byddai'n help ategu prosiectau mewnlenni nwy â therfynau gwario - awgrym ar gyfer prosiect mewnlenni nwy Ardal.
- Dewis o gyfuniad o derfyn gwario â sgôr SAP i'w chyrraedd, (e.e. SAP D), gan ddefnyddio'r isaf.

Ystyried cynnwys eiddo SAP D gan fod rhai aelwydydd wedi manteisio ar fesurau unigol dan gynlluniau dyletswydd ynni a ariennir, sydd wedi codi'r lefel SAP fymryn ond mae angen cymorth pellach o hyd.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig a'r rhestr o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ar gyfer y cynllun newydd?

Os nad ydych, pa feini prawf y byddech yn eu cynnig? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb. Byddai angen i unrhyw gynnis amgen ystyried y gofyniad i gynnal nifer briodol o aelwydydd cymwys.

Prif Bwyntiau Trafod

- Mae cael gwared ar y sector preifat yn brif destun pryder os nad oes dull amgen yn cael ei roi yn ei le i gefnogi'r aelwydydd hyn. Mae diffyg dystiolaeth i gefnogi benthyciadau fel ateb addas ac mae angen mwy o ymchwil i werthuso hyn.
- A hyn o bryd nid oes llawer o gymhelliant nac awydd ymysg landlordiaid preifat i wella effeithlonrwydd ynni'r eiddo y maent yn eu rhentu.
- Mae angen mwy o bwysau a chymhelliad (neu anghymhelliad am beidio â gweithredu) ar landlordiaid preifat i sicrhau eu bod yn gweithredu ac yn defnyddio opsiynau eraill. Roedd awgrymiadau a gyflwynwyd yn cynnwys benthyciadau llog 0% a chysylltu bandiau effeithlonrwydd ynni â'r dreth gyngor, y dreth stamp ac ati.
- Gellid cynnig grantiau rhannol i'r sector rhentu preifat.
- Mae angen codi'r bar mewn cysylltiad â'r gofynion cyfreithiol ar landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Mae'r gofynion cyfredol yn rhy gyffredinol. Posibilrwydd o ddefnyddio Rhentu Doeth Cymru i gyflawni hyn.

- Dylid dylunio meini prawf cymhwysedd i gyd-fynd yn agos â chynlluniau a ffynonellau cyllido eraill (e.e. ECO) i sicrhau'r cymorth a'r fantais orau posibl i aelwydydd.
- Mae angen mwy o wybodaeth a dadansoddiad i gefnogi'r rhai hynny â chyflyrau iechyd meddwl.
- Mae cyflwyno gofynion o ran oedran yn newid mawr ac mae "dros 75" yn rhy uchel. Ni fyddai hyn yn cynnwys cymorth i bobl o oedran gweithio.
- Nifer o awgrymiadau ar gyfer ehangu cymhwysedd i gynnwys grwpiau gwahanol.
- Dylid ymestyn cyngor yn y cartref i gynnwys aelwydydd nad ydynt yn gymwys am fesurau.

Adborth Ysgrifenedig Ychwanegol

- Roedd y meini prawf a gynigiwyd yn rhy gyfyngol a chymhleth sy'n golygu y bydd trydydd partiön yn rhoi'r gorau i atgyfeirio, fel y gwnaethant gydag ECO.
- O'n hatgyfeiriadau i Nest dros y 3 blynedd diwethaf, dim ond 4% fyddai'n gymwys dan y rheolau newydd.

Cwestiwn 7

A) Pa sefydliadau fyddai yn y sefyllfa orau i weithredu fel partneriaid atgyfeirio ar gyfer aelwydydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y galon?

B) Sut y gallai unigolion ddangos bod ganddynt gyflwr iechyd cymwys?

C) Sut y dylai system atgyfeirio gael ei hariannu yn eich barn chi?

Prif Bwyntiau Trafod

- Bydd angen i'r broses atgyfeirio trydydd parti gael llawer o bartneriaid i gynnal y ddau wiriad, e.e. meddygon teulu a sefydliadau trydydd parti rheng-flaen. Bydd yn bwysig atgyfeirio'r ddwy ffordd.
- Dylai'r broses ddefnyddio cyrff neu grwpiau sydd eisoes yn bodoli, yn arbennig pan fydd ganddynt fynediad eisoes i ddata iechyd penodol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys Gofal a Thrwsio, Cyngor ar Bopeth a Speakeasy. Bydd angen adnoddau a chyllid ychwanegol ar unrhyw ateb.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth ymysg meddygon teulu i atgyfeirio i'r cynllun.
- Mae'n hanfodol cael cysylltiadau agos rhwng partneriaid.
- Angen sicrhau bod hyfforddiant ar gael a bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu. Gallai hyn fod yn broses hirdymor.
- Gallai partneriaid atgyfeirio gynnwys Elusennau, Awdurdodau Lleol, Ysgolion, meddygon teulu, Dechrau'n Deg, Cyflenwyr Ynni, Cymunedau yn Gyntaf

Adborth Ysgrifenedig Ychwanegol

- O ran system atgyfeirio trydydd parti, gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar gynlluniau presennol, megis 'iechyd trwy gynhesrwydd' lle caiff grantiau eu darparu gan ddefnyddio Gofal a Thrwsio Cymru yn drydydd parti.

- Os oes llawer o bartneriaid atgyfeirio, bydd angen cysondeb os ydynt yn cymeradwyo cymhwysedd. Neu a ydyn nhw'n trosglwyddo'r unigolyn i gael gwiriadau cymhwysedd pellach?
- Gallai'r Awdurdodau Lleol hefyd fod yn gyrff atgyfeirio. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf swyddog ynni sy'n rhoi cyngor ar dariff, cyngor ar newid ymddygiad ac yn atgyfeirio i bartneriaid eraill h.y. Nest. Bu hyn yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Atodiad 3 – Rhestr o ymatebwyr

Enw	Enw
Busnesau	Sector gwirfoddol
BHHPA	Gofal a Thrwsio Cymru
Nwy Cymru	Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru
Ffederasiwn Cyflenwyr Adeiladwyr	Cyngor ar Bopeth Ceredigion
Calor	Plant yng Nghymru
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Cyngor ar Bopeth Cymru
CITB Cymru	Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru	Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA)
Dŵr Cymru	Un Llais Cymru
E.ON UK	Di-enw
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru
Meyrick Estate Management	Speakeasy
Platform D-Risk - EMME Group	Trivallis
Cymdeithas Landlordiaid Preswyl	RNIB Cymru
ROCKWOOL Ltd	
Scottish Power	
SSE	
UKLPG	
Asiantaeth llywodraeth/sector cyhoeddus arall	
Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio	
Di-enw	
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	
Unigol	
Mr Brian Gresty	
Awdurdod Lleol	
Cyngor Dinas Caerdydd	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	
Cyngor Gwynedd	
Cyngor Sir Powys	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	
Cyngor Torfaen	
Arall	
Y Grŵp Cynghori Allanol ar Dlodi Tanwydd (TPEAG)	
Trawsnewid Llandrindod Transition	
Cyrrff proffesiynol/grwpiau buddiant	
Mineral Wool Insulation Manufacturers Association	
Cymru Gynnes	